Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link



Pathew

Hyrwyddwyr Natur

Canllaw croeso i Aelodau'r Senedd

Rydym yn gwahodd holl Aelodau'r Senedd i ddod yn Hyrwyddwyr Natur gwirfoddol



Gylfinir


Diolch i chi am eich diddordeb mewn bod yn Hyrwyddwr Natur. Mae eich cefnogaeth yn hanfodol i feithrin ymwybyddiaeth a hyrwyddo camau gweithredu i adfer a diogelu amgylchedd Cymru.

Mae menter yr Hyrwyddwyr Natur yn un ffordd fach o sicrhau bod yr argyfyngau natur a hinsawdd wrth wraidd ystyriaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Senedd. Mae'r canllaw hwn yn cyflwyno'r prosiect a'r modd y mae'n gweithio. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ddysgu rhagor, yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Diolch i chi am fod yn llais dros natur.

Mae'r canllaw hwn yn darparu'r cefndir i Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) a'r prosiect; anfonwch neges e-bost at gydlynydd prosiect Cyswllt Amgylchedd Cymru i ddod yn Hyrwyddwr Natur – a hynny yn liz@waleslink.org

Beth yw Cyswllt Amgylchedd Cymru?

Rhwydwaith o sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol sy'n gweithio ledled Cymru yw Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL). Rydym yn cefnogi ein haelodau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r Senedd ac yn eu helpu i gydweithio i ddatblygu polisi ac ymarfer amgylcheddol effeithiol. Rydym yn gwneud hyn trwy gydlynu amrywiaeth o fforymau polisi ac eiriolaeth amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar bynciau megis natur, yr amgylchedd morol a'r amgylcheddau dŵr croyw, amaethyddiaeth, coedwigaeth, llywodraethiant amgylcheddol, mynediad a chynaliadwyedd.



Eog yr Iwerydd

Mae gennym dros 30 o aelodau sy'n gweithio ar draws ystod eang o feysydd polisi amgylcheddol, ym maes cadwraeth natur ymarferol, a hynny trwy ddarparu cymorth i wirfoddolwyr lleol, ac mae rhai'n gweithio'n uniongyrchol gyda ffermwyr. Gall yr aelodau sy'n ymwneud yn weithredol â'r prosiect amrywio trwy gydol y tymor, ond gallwch weld ein holl aelodau ar ein gwefan yma.

Hyrwyddwyr Rhywogaethau yn nhymor y Pumed Cynulliad



Beth yw prosiect yr Hyrwyddwyr Natur?

Byddwn yn dechrau gyda chynefinoedd ac yna'n canolbwyntio ar y rhywogaethau

Lansiodd WEL y prosiect Hyrwyddwyr Rhywogaethau ym mis Mehefin 2016 ar gyfer Pumed Tymor y Senedd, gan bartneru Aelodau o'r Senedd â rhywogaethau sydd mewn perygl ac a fyddai fel arfer i'w cael yn eu hetholaeth. Noddwyd pob Aelod o'r Senedd gan aelod-sefydliad o'r WEL a chanddo arbenigedd yn rhywogaeth etholaeth yr AS. Trwy ddysgu mwy am eu rhywogaeth gyda chymorth eu haelod-noddwr yn WEL, mae'r ASau wedi rhoi llais i fywyd gwyllt sydd mewn perygl ac na all siarad drosto'i hun, ac maent wedi dadlau dros gamau gweithredu a fydd yn helpu i symud y rhywogaeth honno o fod yn un 'dan fygythiad' i fod yn un 'sy'n ffynnu'!

Ar gyfer Seithfed Tymor y Senedd, rydym wedi penderfynu ehangu'r prosiect a'i alw'n Hyrwyddwyr Natur fel y gallwn gynnwys mwy o ASau ac aelodau WEL nag o'r blaen, ac er mwyn ein galluogi i archwilio materion mewn ffordd fwy cyfannol. Dros amser, byddwn yn parhau i benodi hyrwyddwyr ar gyfer rhywogaethau unigol hefyd, ond byddwn yn dechrau trwy recriwtio Hyrwyddwyr Natur. Mae hyn yn golygu y gallwch ddysgu mwy gyntaf am yr hafanau bywyd gwyllt yn eich etholaethau newydd ac am y materion pwysicaf i fynd i'r afael â nhw'n lleol, a hynny cyn i chi gytuno ar rywogaeth sy'n cyd-fynd â'r pynciau amgylcheddol sydd o'r diddordeb neu'r pwysigrwydd mwyaf i chi.

Gwyfyn Teigr yr Ardd



Er enghraifft, gallai ymweliad Hyrwyddwr Natur olygu bod pob un o'r chwe Aelod o'r Senedd mewn etholaeth yn cael eu gwahodd i le arbennig ar gyfer natur neu i gwrdd â phobl sy'n mwynhau neu'n adfer ein hamgylchedd. Er enghraifft, gallai hyn olygu:

- Gwarchodfa natur ag amrywiaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau ffyniannus

- Prosiect sy'n gwella afonydd trwy leihau llygredd
- Fferm ag arferion sy'n gyfeillgar i natur, ac sy'n gwneud gwaith clodwiw i adfer rhywogaethau mewn perygl
- Mynd allan gyda grŵp megis Ramblers Cymru i gerdded ar hyd llwybrau hygyrch a gweld natur yn eich ardal
- Ymuno â grŵp casglu sbwriel, sy'n cadw ein harfordiroedd yn brydferth a'n hafonydd yn lân

Ein nod yw ymweld â phob un o'r 16 o etholaethau yn ystod tymor y Senedd fel bod pob Aelod o'r Senedd yn cael cyfle i fod allan ym myd natur ar garreg ei ddrws.

Pa gymorth y gallwch ei ddisgwyl gan Cyswllt Amgylchedd Cymru os byddwch yn cofrestru i fod yn Hyrwyddwr Natur?

Bydd pob Hyrwyddwr Natur yn cael briffiau mwy rheolaidd – yn uniongyrchol gan Cyswllt Amgylchedd Cymru, sef y cydlynydd, a bydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth o bob rhan o'n rhwydwaith – fel bod ganddynt fanylion am y data, y prosiectau a'r gwaith polisi diweddaraf ar faterion amgylcheddol. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn gwneud awgrymiadau pan ddaw hi'n fater o ddadleuon a chwestiynau perthnasol yn y Senedd ar yr amgylchedd.

Morwellt



Telor y Coed



Afanc



Gofynnwn i bob Aelod o'r Senedd a chanddo ddiddordeb mewn bod yn Hyrwyddwr Natur i roi gwybod i ni hefyd a hoffai i ni ddyrannu rhywogaeth ar ei gyfer.

Rydym yn gobeithio penodi 16 o Hyrwyddwyr Rhywogaethau yn y flwyddyn gyntaf. Byddwn yn blaenoriaethu'r rhywogaethau sydd fwyaf mewn perygl, sydd â phrosiectau y gallwn ymweld â nhw'n hawdd, a lle rydym yn gweld y potensial mwyaf y tymor hwn ar gyfer cynnydd yn eu hadfywiad i fod yn rhywogaeth ffyniannus a thoreithiog.

Bydd angen dod o hyd i bob rhywogaeth yn eich etholaeth neu'n agos iawn ati, a bydd gofyn iddi fod yn flaenoriaeth o ran ei bregusrwydd. Nodwch na allwn dderbyn ceisiadau am rywogaethau os nad oes gennym unrhyw un yn y rhwydwaith i'w cefnogi neu os nad yw'r rhywogaethau mewn perygl.

Ystlum Pedol Lleiaf



Eryr y Môr



Pam y mae angen y prosiect?

Mae Adroddiad Cyflwr Natur Cymru, a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2023, yn dangos bod 1 o bob 6 rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu a bod bywyd gwyllt Cymru wedi lleihau 20% ers 1994. Mae'r argyfwng natur yn broblem ryngwladol – mae'r DU ei hun wedi'i rhestru'n fyd-eang yn y 10% isaf ar gyfer bioamrywiaeth gyflawn – ond rhaid i'r atebion ddod gan bob llywodraeth. Mae pob gwlad yn y DU wedi ymrwymo i dargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang i amddiffyn ac adfer 30% o'n tir, ein hafonydd a'n moroedd erbyn 2030.

Bydd Llywodraeth Cymru yn y tymor hwn yn sefydlu targedau natur yn rhan o Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026. Fodd bynnag, mae'r camau i gyflawni'r targedau hynny yn dod oddi wrthym i gyd – nid dim ond oddi wrth Lywodraeth Cymru, ond o du'r cynghorau tref, yr awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac o ymdrech gydweithredol unrhyw un sy'n berchen ar unrhyw fath o dir yng Nghymru. Mae hyd yn oed eich gardd

gefn eich hun yn ddarn hanfodol o'r pos jig-so pan ddaw hi'n fater o fioamrywiaeth iach.

Mae gan rywogaethau rôl annatod i'w chwarae mewn ecosystemau. Mae'n bosibl nad yw'r hyn sy'n ymddangos weithiau fel man gwyrdd yn cyflawni ar gyfer natur na rhywogaethau allweddol, ac y gall ecosystemau hanfodol fod ar lwybr chwalfa. Mae ecosystemau a rhywogaethau iach yn sail i'n bywoliaeth, a hynny o bridd iach sy'n tyfu ein bwyd; i wenyn, gloÿnnod byw a phryfed sy'n peillio bwyd; i buro ein hafonydd; i greu aer glân; i gloi carbon i mewn; ac i ddarparu economi ffyniannus i Gymru. Mae hon yn adeg dyngedfennol i natur yng Nghymru, a rhaid i'r Senedd hon sefyll dros rywogaethau ac ecosystemau.

A chithau'n Aelod o'r Senedd, rydych mewn sefyllfa unigryw i dynnu sylw at y materion hyn yn y Siambr. Mae ar natur angen eich llais. A wnewch chi siarad drosti?



Bathodynnau 'Dangos y Cariad' yn cael eu dyfarnu i Hyrwyddwyr